

YR EGLWYS YN CYFATHREBU

Social Networks



Facebook



Instagram



Twitter



Google+



Pinterest




Tumblr



LinkedIn



WhatsApp



Messenger

WORSHIP & TEACHING

ECO  **CHURCH**
AN A ROCHA UK PROJECT



ALLCHURCHES TRUST LIMITED®
OWNERS OF ECCLESIASTICAL INSURANCE GROUP

www.ecochurch.arocha.org.uk



WORSHIP & TEACHING

Yr Eglwys yn Cyfathrebu

PAM?

Gallan ni ystyried bod cyfathrebu am faterion newid hinsawdd a'r amgylchedd mor syml â rhoi gwybod i bobl a'u rhybuddio o'r pulpud. Ond, rydyn ni oll yn gwybod bod y realiti'n llawer mwy cymhleth os ydyn ni eisiau cael dylanwad a gweld ymddygiad ac arferion yn newid. Rydyn ni'n dod o wahanol bwyntiau cychwyn, ac mae gennym oll brofiadau bywyd amrywiol a gwahanol werthoedd a dewisiadau yn sail i'r math a'r dull o gyfathrebu yr ydym yn ymateb iddo orau.

Mae rhai ohonom yn caru darllen, mae'n well gan eraill luniau grymus; mae pobl eraill yn cael eu heffeithio fwyaf gan ddata sydd wedi ei gyflwyno'n glir. Mae rhai yn hoffi gwranddo ar bodlediadau, rhai yn teimlo'n gyfforddus ar Facebook, ac mae'n well gan eraill gyflymder Snapchat neu Instagram.

Yn ein cymdeithas gynyddol amrywiol, yr hyn rydyn ni'n ei wybod yn sicr yw bod gwahanol ddulliau yn cyrraedd cynulleidfaoedd gwahanol, felly gadewch i ni fod yn greadigol wrth i ni geisio cyfathrebu fel eglwysi am y materion hanfodol hyn – y newid hinsawdd a'r amgylchedd.

SUT?

Meddylwch am y ddemograffeg yr ydych eisiau ei chyrraedd, yr adnoddau sydd ar gael a rhoddion arbennig y bobl sy'n gwneud y cyfathrebu. Yma, rydym yn disgrifio amrywiaeth o gyfryngau a allai gyrraedd eich cynulleidfa darged, i roi syniadau i chi eu defnyddio a'u haddasu i gyfateb â'ch cyd-destun chi. A chofiwch, mae straeon yn ffordd dda o ennyn diddordeb pobl, o atgyfnerthu syniadau, cyfleu gwerthoedd, dylanwadu ar ddiwylliant ac ysbrydoli pobl i weithredu. Mae straeon yn effeithio pobl yn emosiynol yn ogystal â'u herio'n ddeallus – cyfuniad sy'n achosi i bobl weithredu.



WORSHIP & TEACHING

Yr Eglwys yn Cyfathrebu

CYNNWYS GAN A ROCHA UK

Mae A Rocha UK yn darparu cynnwys i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddarllenwyr am faterion amgylcheddol a hinsawdd. I glywed y diweddaraf:

- Tanysgrifwch i Root and Branch, ein cylchgrawn chwech misol: <https://arocha.org.uk/our-magazine/>
- Darllenwch newyddion Eco Church: <https://ecochurch.arocha.org.uk/news/>
- Darllenwch y diweddaraf gyda'n blog: <https://arocha.org.uk/blog/>
- 'Ymunwch â ni': <https://arocha.org.uk/join-us/>

Ar y cyfryngau cymdeithasol, mae A Rocha UK i'w gael ar

Instagram: @arocha_uk, #wildchristian, #ecochurch

Twitter: @ARochaUK

Facebook: @Arochaorguk

YSGRIFENNWCH GYLCHLYTHYR WYTHNOSOL NEU FISOL MEWN PRINT

Os oes gennych daflen wasanaeth, ystyriwch ychwanegu eitem wythnosol fer fel 'Eric's Eco Tip' yn hysbysiadau Eglwys St Leonard's, Bridgnorth: <https://www.bridgnorthteamministry.org.uk/this-weeks-noticesheet/>

Mae Eglwys yr Holl Saint yn Springfield, Essex, yn cynhyrchu cylchlythyr lliw yn fisol, gyda phroffil o'r gweithgareddau Eco Eglwys: <https://www.allsaintsspringfield.org.uk/uploads/publications/21-08-Magazine.pdf>

CREU DOGFEN FISOL NEU FLYNYDDOL ARBENNIG

Mae St Mary's, Eaton Socon yn Swydd Gaergrawnt, yn paratoi cylchlythyr ddwywaith y flwyddyn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r plwyf am yr hyn sy'n digwydd ac i roi awgrymiadau amserol: <https://www.eatonsocon.org/wp-content/uploads/2021/05/CC-Spring-Newsletter-photos-v8.pdf>



WORSHIP & TEACHING

Yr Eglwys yn Cyfathrebu

MYND AR-LEIN

Mae llawer o eglwysi wedi bod â phresenoldeb ar-lein ers rhai blynyddoedd; gyda dyfodiad y pandemig yn 2020, mae'r gwefannau hynny'n dod yn fwy angenrheidiol ac yn fwy gweithredol ac mae mwy o bobl yn ymweld â nhw. Dyma rai syniadau am y ffordd o fanteisio fwyaf ar y cyfleoedd ar-lein.

Trwy eich gwefan eich hun:

Sefydlwch we-dudalen ymroddedig –

- Mae gan Eglwys St Leonard's, Streatham we-dudalen sy'n ymroddedig i'w gweithgareddau Eco Eglwys: <https://stleonard-streatham.org.uk/eco-church-at-st-leonards/>
- Mae tudalen Eglwys Babyddol Kidlington yn cynnwys eu cylchlythyr 'Eco Echo' misol: <https://www.kidlington-baptist.org.uk/church-activities/eco-resources>
- Mae Eglwys Fethodistaidd Epsom yn annog pobl i gofrestru ar gyfer derbyn cylchlythyr eco-awgrymiadau wythnosol, yn ogystal â thynnu sylw at bresenoldeb yr eglwys yn y farchnad ffermwyr lleol: https://www.epsommethodistchurch.org.uk/Groups/354440/Eco_Church.aspx

Ar dudalen blog:

Defnyddiwch eich gwefan eich hun ar gyfer blog –

- Mae St James Piccadilly yn ysgrifennu blogiau achlysurol i herio ac annog eu haelodau eu hunain i feddwl a gweithredu: <https://www.sjp.org.uk/eco-blog>

Cymerwch ran ym mlog rhywun arall –

- Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Swydd Gaerhirfryn, Manceinion a Gogledd Glannau'r Mersi yn cynnwys blog Eco Eglwys misol o Eglwys St Michael's, Bolton, yn eu gweddalennau eu hunain: <https://www.lancswt.org.uk/blog/st-michael-s-church-bolton>

Neu efallai bod gan eich enwad flog lle gallwch bostio neu ddarllen am faterion amgylcheddol: <https://www.methodist.org.uk/about-us/news/the-methodist-blog/>



WORSHIP & TEACHING

Yr Eglwys yn Cyfathrebu

Rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol:

Sefydlwch dudalen neu grŵp Facebook –

- Eglwys St Andrew, Uxbridge: <https://www.facebook.com/St-Andrews-Eco-Church-Uxbridge-108282881061210>
- Christ Church, Bridlington: <https://www.facebook.com/groups/454735362376451/>
- Eglwys Gadeiriol Chelmsford: <https://www.facebook.com/groups/727013254703425>

Ysbrydoli ar Instagram–

- Mae Eglwys St John's yn Egham yn defnyddio Instagram i annog gweithredu ar newid hinsawdd a chynhyrchu negeseuon o obaith: [@stjohnsecochurch](https://www.instagram.com/stjohnsecochurch)

Postiwch fideo ar YouTube neu Vimeo: –

Rhai sianelau Youtube defnyddiol:

- A Rocha UK: <https://www.youtube.com/channel/UCfQM1rfOoPThgV3dQbVGoSw>
- Operation Noah: <https://www.youtube.com/user/OpNoah>
- Green Christian: <https://www.youtube.com/channel/UCp9kRqAFn1vr16HKs18YA4w>

DEFNYDDIAU DARLLEN HIRACH AC ADNODDAU ERAILL

Sylweddolodd sefydlwyr Climate Outreach, sy'n sefydliad seciwlar, nad oedd degawdau o gonsensws gwyddonol yn sbarduno cymdeithas i weithredu. Cafodd yr elusen Brydeinig hon ei sylfaenu i ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar ymgysylltiad y cyhoedd â'r newid hinsawdd. Defnyddiwch eu hadnoddau nhw, yn cynnwys llyfrgell ddelweddau, i gefnogi'r cyfathrebu yn eich cyd-destun chi:

<https://climateoutreach.org/>

<https://climatevisuals.org/collections/>

Mae un adran yn canolbwyntio ar y ffordd y mae Covid-19 yn effeithio ar ymddygiadau ac agweddau tuag at yr hinsawdd: <https://climateoutreach.org/programmes/covid-19/>